# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS EBRILL 2020:**
**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom a pawb yn ei gartref yn defnyddio ei gyfrifiadur neu ei ffôn am 7y.h. nos Iau y 30ain o Ebrill, 2020.** Estynwyd croeso i'r aelodau a'u llongyfarch ar lwyddo i feistroli Zoom a diolchwyd i TT am drefnu ochr dechnegol a gwneud y cysylltiad yn bosibl.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Bethan Holding, Iwan Harding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Iola Owen (ond fethodd gymeryd rhan am nad oedd yn ein clywed), Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 18fed o Fawrth, 2020 fel rhai cywir a threfnwyd i'r Cadeirydd ei harwyddo. Cynnig ac eilio: HLJ / KMJ.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Biniau Halen ac anfonebau hwyr:***
Cafwyd anfoneb o'r diwedd a gyda caniatad y Cadeirydd a'r is Gadeirydd trefnwyd i'w dalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly hefyd gyda nifer o anfonebau eraill a dderbyniwyd ar ôl cyfarfod yn mis Mawrth. Cyfieithu, gosod biniau a'r Wefan ynghyd a siec newydd i Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn lle'r siec na chyrhaeddodd. Cytunwyd fod hynny wedi bod yn ddoeth, er mwyn cynnwys y gwariant yn unol a'r Gyllideb yng nghyfrifon 2019-20.
***2. Defaid Crwydrol:***
Trafodwyd eto broblem y defaid crwydrol. Cytunwyd i holi a oedd Colin Roberts yn fodlon gweithredu i'r Cyngor a thrafodwyd telerau i'w cynnig iddo. Hefyd penderfynwyd gofyn i'r heddwas Dewi Evans sy'n aelod o Dîm Troseddau Cefn Gwlad yr Heddlu i gael gair a nifer o ffermwyr.
***3. Cae Chwarae:***
Oherwydd y feirws chafwyd dim cyfle i chwilio am offer chwarae newydd.
***4. Y Wefan:***
Croesawyd fod Gwefan y Cyngor yn weithredol. y cyfeiriad yw **cyngorllanberis.cymru**
***5. Cynllun Cyfaill:***
Mae'n ymddangos fod y Cynllun Cyfaill a sefydlwyd gan y Cyngor yn gweithio'n dda, er nad oes efallai cymaint o alw a hynny. Mae'n debyg bod nifer o'r trigolion a gafodd gymorth wedi gwneud cysylltiad a'r sawl a'u cymorthwyodd gynta ac wedi cadw cysylltiad. Sut bynnag mae'n ymddangos bod popeth yn gweithio'n rhwydd a'r gofynion yn cael eu hateb yn sydyn.
***6. WhatsApp:***
Gofynnwyd yn garedig i'r aelodau beidio defnyddio WhatsApp ar gyfer anfon negeseuon mewn perthynas a'r Cyngor ar ol 9 yr hwyr.

**5 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Mawrth, 2020**
**Cyfrif Cyfredol**: £17,246.82 **Cyfrif Cadw**: £5,362.82

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM … … £2,575.27**
**1/2**
**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/02/2020 a 28/03/2020:**
**CYFANSWM … … £150.85**

Cyflwynwyd cynnwys tair mantolen ariannol (gwariant, derbyniadau a cysoni'r Banc) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dydd olaf o Fawrth. Bydd rhain yn cael eu hebostio yn y dyddiau nesaf a'u cyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod mis Mai. O ran arian wrth gefn, unwaith y bydd sieciau wedi'i clirio mae'r cyfanswm yn £4,059.85, ond yn cynyddu i £8,059.85

oherwydd na chliriwyd siec am £4,000 y llynedd. Nodwyd i'r Clerc holi sawl gwaith am hynt a helynt y siec ac i'r banc a'r derbynydd ei sicrhau fod yr arian wedi ei dderbyn.
Cynnig ac eilio: HLJ / GE

**6 DOGFENNAU:**
Cytunwyd i dderbyn y dogfennau polisi ac nad oedd angen eu diweddaru. Cynnig ac eilio: TT / HS.

**7 CYFARFOD NESAF:**
Gobeithir medru trefnu i gynnal y cyfarfod nesaf ar Fai y 13eg ar Zoom. Hwn fydd y Cyfarfod Blynyddol a bydd yn rhaid hysbysebu hynny.

**Arwyddwyd fel Cofnod Cywir**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad: 13 Mai, 2020.

***2/2***